**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1227
Ein cyf/Our ref LN/10341/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr 5 Tachwedd ynghylch deiseb i sefydlu uned iechyd meddwl arbenigol i famau a babanod yn y Gogledd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod darpariaeth uned mamau a babanod ar gael i famau sy'n byw yn y Gogledd. Rydym yn sylweddoli mor bwysig yw hi bod mamau newydd yn gallu cael y cymorth arbenigol angenrheidiol iddynt hwy a'u babanod yn nes at adref. Ar ôl ymweld â'r uned mamau a babanod yn Abertawe, drwy ddull rhithwir, yn gynharach eleni, rwyf wedi gweld yr effaith bwysig y gall ei chael. Yn fy rôl fel Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, rwyf wedi cael diweddariadau rheolaidd ar hyn yn unol â'm cais, ac yn ddiweddar fe wnes i gyfarfod ag arweinwyr Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i drafod y datblygiad hwn.

Mae'r gwaith modelu a wnaed yng Nghymru wedi dangos nad oes gennym ddigon o alw i gael uned annibynnol yn y Gogledd.Felly rydym wedi bod yn cydweithio ag NHS England i ddatblygu uned ar y cyd yng Ngogledd Orllewin Lloegr a fydd ar gael i drigolion Gogledd Cymru. Mae ymgysylltu sylweddol o hyd rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSCC) ac NHS England ynghylch datblygu'r uned newydd hon.

Rwyf wedi gofyn am i'r gwaith hwn gael ei ddatblygu ar frys a chyflymder gwirioneddol. Byddaf yn parhau i dderbyn diweddariadau rheolaidd iawn gan swyddogion ac yn ddiweddar fe wnes i gyfarfod WHSCC eto i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Rwyf hefyd wedi cynnig fy nghefnogaeth i swyddogion sy'n cydweithio ag NHS England er mwyn sicrhau bod modd bwrw ymlaen yn gyflym â hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallaf hefyd gadarnhau ein bod yn gweithio gyda'r darparwr i gefnogi anghenion Cymraeg ein cleifion wrth ddatblygu'r uned.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing